Cofnodion oCyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m ar nos Fercher, 22 Mehefin 2005

Yn Bresennol: Maer Cyng Colin Jenkins
Cyng Mrs Fran Murphy
Cyng Ros Bellamy
Cyng Roy Davies
Rhingyll Neil Jones
Dirprwy Faer Hugh Towns
Cyng Richard Wallace
Cyng Pam Steane Price
Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Ieuan Gwyn , Cyng Charlotte Leadbeater

Cyn cychwyn y cyfarfod, fe wnaeth y Maer gyflwyno tusw o flodau i'r Clerc gweithredol June Stait,a diolch iddi am ei gwaith ar ran y Cyngor. Fe wnaeth Cyng Ros Bellamy eilio ei diolch iddi.
Yna fe groesawodd y Maer y staff newydd, sef Clerc y dref Mr Roger Phillips, y Swyddog Cyllid Mr Christopher Plummer, a'r Swyddog Technegol Mr Desmond Davies.

Materion yr Heddlu: Nododd Rhingyll Neil Jones mai nifer fechan iawn o achosion sydd wedi digwydd yn ddiweddar, ar wahan i un lladrad. Fe wnaeth y Maer roi gwybod iddo am bum llythyr a dderbyniwyd yn cwyno am un o adeiladau'r. Nododd Rhingyll Jones bod yr Heddlu yn ymwybodol o'r adeilad hwnnw a'u bod yn monitro'r sefyllfa. Mae asiantaethau eraill o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn ymwneud â hyn.

6540/ Mehefin/ 05 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

1. Cytunwyd bod cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn nhafarn Yr Hydd Gwyn ar ddydd Gwener, 20 Mai 2005 yn gofnod cywir, ac fe'u harwyddwyd. Cynigwyd gan Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan Cyng Roy Davies.

2. Cytunwyd bod cofnodion y CCB a ailgydiwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor ar 25 Mai yn gywir, gyda'r cywiriad canlynol:
6497a – Cynigwyd bod cofnodion y CCB yn gofnod cywir gan Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Ieuan Gwyn.
6499 – Dileu Jones ac ychwanegu Gwyn

3. Cytunwyd bod cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai yn gywir gyda'r cywiriadau canlynol:
6510 – newid enw Cyng Ros Bellamy i'r Grŵp Gweithredol
Ychwanegu – cyflwynodd Cyng Pam Steane Price adroddiad ystadegol.
Ychwanegu – Cyng Roy Davies i gasglu dyfynbrisiau wth amrywiol gwmnïau.
6511 – newid 'tyfiant anniben' i – 'tyfiant a allai fod yn beryglus'
6512 – newid enw Cyng Ros Bellamy i Cyng Colin Jenkins.
6517 - cywiriad sillafu yn y fersiwn Saesneg o 'distinctiveness'.
6519 (a) – ychwanegiad – nododd Cyng Richard Wallace bod un o oleuadau stryd Heol Cilgant wedi torri.
Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns i archwilio.
Cynigodd Cyng Ros Bellamy y cofnodion fel rhai cywir, ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

4. Cytunwyd bod cofnodion y Pwyllgor Cynllunio ac Achosion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, 8 Mehefin yn gywir, gyda'r cywiriadau canlynol:
6521 - ni ddyfarnwyd y cofnod hwn
Dylai'r ohebiaeth cynllunio ar gyfer gweithdy gardd gyffredinol gael y cyfeirnod E / 010119.
Cynigwyd fel cofnod cywir gan Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan Cyng Richard Wallace.

5. Cytunwyd bod cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 8 Mehefin yn Neuadd y Sir yn gywir, gyda'r cywiriadau canlynol:
6532 – byddai Cyng Colin Jenkins yn anfonebu'r Cyngor am yr elfennau roedden nhw'n gyfrifol amdanynt.
6534 – ychwanegu – Cyng Ros Bellamy i wneud ymholiadau am ble daeth y niferoedd hyn.
Cynigwyd fel cofnod cywir gan Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan Cyng Roy Davies.

6541/ Mehefin/05 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

1 **Cyfleusterau i Bobl Ifanc – Parthed: Ardal Sglefr-fyrddio.**
Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Cynghorwyr gadarnhau os mai Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw'r ardal ac os oedd profion diogelwch blynyddol wedi cael eu gwneud.
2. **Rhodd Ceramica**
Ni dderybniwyd mantolen hyd yn hyn. Trosglwyddwyd y mater i gyfarfod y pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin
3. **Maer Er Heddwch**
Bydd Maer y dref yn delio gyda hyn.

6542/ Mehefin/05 Cadarnhau apwyntio staff

1. Clerc y Dref - Mr. Roger Phillips i ddechrau ar 20.06.05 ar raddfa pwynt 18.
2. Swyddog Cyllid – Mr. Christopher Plummer i ddechrau ar 1.07.05 ar raddfa pwynt 15.
3. Swyddog Technegol – Mr. Desmond Davies i ddechrau ar 13.06.05 ar raddfa pwynt 15.
Cynigwyd gan Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan Cyng Hugh Towns, pawb yn gytun.
Cyng Hugh Towns i drefnu gweithdrefnau rhestr gyflogaeth. Rhoddwyd gytundeb yn seiliedig ar fodel Un Llais Cymru i'r staff newydd ei ystyried. Mae'r tri wedi bod trwy rhaglen ragarweiniol gan y Cynghorwyr perthnasol.

6543/ Mehefin/ 05 Rhybudd o Newid

Newid Rheol Sefydlog 5a
Ar dudalen 3, Rheol Sefydlog 5a, ar llinell 1, dylid dileu'r geiriau "Clerc y Dref fydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol"
Ar dudalen 3, ar ddechrau llinell 1, ychwanegu "y Swyddog Cyllid Cyfrifol fydd y person sy'n cael ei apwyntio i swyddogaeth y Swyddog Cyllid; yn absenoldeb apwyntiad o'r fath, Clerc y dref fydd yn gyfrifol."
Cynigwyd gan Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Hugh Towns. Pawb yn gytun. Mae hyn yn dod i rym o gyfarfod 22 Mehefin ymlaen.

6544/ Mehefin/05 Newid y Drefn Ariannol

Y Swyddog Cyllid newydd yw'r unigolyn ag awdurdod i symud arian.
Cynigwyd gan Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Hugh Towns. Pawb yn gytun.

6545/ Mehefin/ 05 Offer swyddfa a chyflenwadau

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cynigodd Cyng Ros Bellamy bod cyfrifiadur newydd yn cael ei brynu, yn ogystal â deunydd ysgrifennu sylfaenol. Nid yw hyn i gostio mwy na £1000 a bydd y gost yn dod allan o'r gronfa wrth gefn.

6546/ Mehefin/ 05 Mabwysiadu Polisi Disgyblaethol a Chwynion
Cynigwyd gan Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price. Cytunwyd yn unfrydol.
Y Pwyllgor Staffio i gynnwys Maer Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Pam Steane Price.
Pwyllgor Apêl i gynnwys Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy. Rhain i'w cynnwys fel eitemau yn y CCB a fydd yn cael ei ail-gydio.

6547/ Mehefin/ 05 Mabwysiadu Polisi Gwrachod yr Amgylchedd
Cytunwyd i fabwysiadu'r ddogfen fel polisi drafft.
Newidiadau i'w gwneud, yn cynnwys: newid Clerc y Dref i Swyddog Technegol; "a dylai cyfeiriad fod at y Swyddog Technegol"
Hyn i'w wneud yng nghyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Cynllunio.

6548/ Mehefin/ 05 Materion Ariannol

Gyda sylw at gofnod 6534, nododd Cyng Ros Bellamy mai arian nawdd o'r Gronfa Gymunedol ar gyfer Prosiect Plannu Coed Stryd y Bont CF0503 yw'r £1264.40. Derbyniwyd y swm sy'n weddill ers 2002, sef £3200 ar 14.06.05.

6549/ Mehefin / 05 Adroddiad y Maer

Cyflwynodd y Maer Cyng Colin Jenkins adroddiad ar ei ddyletswyddau sifil yn ystod y mis, a manylion o'r holl gyfarfodydd iddo eu mynychu.

6550/ Mehefin / 05 Prosiect Treftadaeth

Roedd y Grŵp Gweithredol wedi cwblhau'r Daith Dreftadaeth ac wedi adnabod lleoliadau ar gyfer pob plac a bwrdd. Roedd Cyng Richard Wallace wedi mynd at unigolion a mudiadau er mwyn annog cefnogaeth. Nid oes angen caniatad cynllunio ar gyfer y daith, ond mae'r Cyngor yn mynd i gysylltu gyda Mr Aidan Griffiths ynglyn â rhoi placiau ar adeiladau cofrestredig. Derbyniwyd dendrau wrth bedwar cyflenwr ar gyfer y byrddau gwybodaeth. Mae angen tendrau ar gyfer codi'r byrddau a'r placiau hefyd. Cynhleir cyfarfod gyda Menter Bro Dinefwr ar 5 Gorffennaf i drafod llunio ffurflen gais am nawdd.

6551/ Mehefin/ 05 Prosiect Yr Ardd

Rhoddwyd fraslun ar ffurf adroddiad gan Cyng Pam Steane Price. Mae angen gofyn i Peter Morgan o Gyngor Sir Caerfyrddin drafod diogelwch y wal gynhaliol gyda Cyng Pam Steane Price a'r Swyddog Technegol. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio torrwr brwsh i dorri'r isdyfiant. Bydd y grŵp gwirfoddol nesaf yn cwrdd am 9.30am ar 9 Gorffennaf.

Gohiriwyd Rheol Sefydlog 6 er mwyn parhau â busnes y Cyngor

6552/ Mehefin / 05 Prosiect Neuadd y Sir

Mae'r holl ddogfennaeth yn barod i'w cyflwyno gyda'r cais am nawdd. Cytunwyd i ofyn i'r pensaer Paul Regan fod yn reolwr prosiect ar ran y Cyngor gan ei fod wedi gwneud llawer o waith ar y prosiect eisoes, yn cynnwys y cynlluniau gwreiddiol.

6553/ Mehefin/ 05 Gohebiaeth

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Antur Cwm Taf / Tywi - Milltir Sgwâr – wedi ei drafod eisoes
Urdd Gobaith Cymru – cais am arian – rhoddwyd yn adran 137
Cofnodion Mudiad Lleol Clerciaid
Cylchlythyr *Heart of Wales*.
Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch ar Gil Wright mewn gwerthfawrogiad am ei holl waith gyda llinell yr *Heart of Wales*.
Cyng Colin Jenkins i edrych ar ddatblygiad y system wybodaeth tro U. Swyddog Technegol i edrych ar yr angen am arosfan bws ar ddiwedd Heol yr Orsaf.

6554/ Mehefin/ 05 Unrhyw Fater Arall

- Swyddog Technegol i ddod â gwybodaeth am gynlluniau ail-gylchu'r dyfodol
- Cynnal a chadw Llwybrau Troed – gwnaed y Swyddog Technegol yn ymwybodol o'r pryder am ddefnyddio lladdwr chwin cemegol.
- Atgoffwyd y Grŵp Gweithredol i drosglwyddo eu sylwadau am y strategaeth barcio.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk